

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ymgynghoriad ar y cynnig i sefydlu ysgol pob oed 3-19 newydd â 2006 o leoedd, gyda 96 o leoedd meithrin rhan-amser, o fis Medi 2022 trwy uno Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gyfun y Bont-faen a hynny trwy:

- newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;
- cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1586 o leoedd i 2006 o leoedd i wneud lle i 420 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg;
- codi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin; a
  - dirwyn Ysgol Gynradd y Bont-faen i ben.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.

Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.

Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalennau</b>
<b>Cyflwyniad</b>	3
<b>Y Cyd-destun Cenedlaethol</b>	3
<b>Y Cyd-destun Polisi Lleol</b>	3 - 4
<b>Heriau Cyfredol</b>	4 - 5
<b>Proffil y Gymuned</b>	5
<b>Asesiad Effaith</b>	6 – 14
<b>Crynodeb Sgorio</b>	15
<b>Casgliadau</b>	15

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrion, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sy'n rhan ohonynt, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r cynnig yn un i sefydlu ysgol pob oed 3-19 newydd â 2006 o leoedd, gyda 96 o leoedd meithrin rhan-amser, o fis Medi 2022 trwy uno Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gyfun y Bont-faen a hynny trwy:

- newid ystod oedran Ysgol Gyfun y Bont-faen o 11 - 19 i 3 - 19;
- cynyddu capasiti Ysgol Gyfun y Bont-faen o 1586 o leoedd i 2006 o leoedd i wneud lle i 420 o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg;
- codi adeilad ysgol newydd ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen i wneud lle i'r cyfnodau cynradd a meithrin; a
- dirwyn Ysgol Gynradd y Bont-faen i ben.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.1 a 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae Adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol yn ôl cyfradd o 25% o leiaf ac estyniad o flwyddyn neu fwy yn ystod oedran ysgol.. Byddai adeilad newydd yr ysgol o fewn 1.609344 (1 filltir) i'r ysgol bresennol.

## 2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau allweddol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni olynol.

## 3. Y Cyd-destun Polisi Lleol.

Gan adlewyrchu'r polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2016-20 i wireddu'r weledigaeth ganlynol – **'Cymunedau Cryf â dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol' gan godi safonau cyflawniad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'w diben sy'n diwallu anghenion addysg yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod y cyfleoedd gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial.

#### **4. Heriau Cyfredol**

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n:

- Symleiddio'r broses ar gyfer derbyn rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd gyda disgyblion presennol yn trosglwyddo'n awtomatig i'r cyfnod sylfaen heb gyflwyno cais newydd.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Saesneg yn ardal y Bont-faen.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu mewn ymateb i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ateb anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Galluogi'r ddarpariaeth yn y Bont-faen i wella ymhellach gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy ar yr un pryd.
- Creu dull cyson o'r cyfnod sylfaen i'r 6ed dosbarth o ran ethos a safonau dysgu'r ysgol.
- Gweledigaeth gyson a gwerthoedd cyffredin ar draws cyfnodau addysg.
- Cymuned ddysgu broffesiynol gyffredin.
- Ymgysylltu cyson â rhieni ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd.
- Arbenigedd ar draws yr ystod oedran lawn.
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff mewn amgylchedd ysgol pob oed.

- Mwy o ffocws ar gyfnodau pontio allweddol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a'r cyfnod uwchradd gan sicrhau yr adeiledir ar gynnydd o ran dysgu o un flwyddyn i'r llall gyda chyn lleied â phosibl o darfu wrth i'r plentyn symud trwy'r strwythur(au) dysgu.
- Un gyfundrefn atebolrwydd ac arolygu, gan gynnwys un Ymgynghorydd Her o'r Consortiwm.
- Un gyllideb ar draws yr ysgol, gan symleiddio rheolaeth ariannol.
- Cyfle i gyflawni cost-effeithlonrwydd sy'n deillio o gydleoli ar un safle a rhesymoli contractau gwasanaethau cymorth megis cynnal a chadw'r tir.
- Rhoi'r gorau i ddyblygu datganiadau data a data cyfrifiad disgyblion.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Aseu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).

## 5. Proffil y Gymuned

Ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu plant 3 i 11 oed yn ardal y Bont-faen yw Ysgol Gynradd y Bont-faen. O ran derbyniadau, mae 30 disgybl ym mhob grŵp oedran gyda chyfanswm capasiti o 210 o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol 60 o leoedd meithrin rhan-amser hefyd.

Ysgol gymunedol Saesneg sy'n gwasanaethu pobl ifanc 11 i 19 oed yn ardal y Bont-faen yw Ysgol Gyfun y Bont-faen. O ran derbyniadau, mae 240 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 1586 o ddisgyblion.

Mae Ysgol Gynradd y Bont-faen yng nghanol tref y Bont-faen ac mae Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyrion tref y Bont-faen. Gorwedd y dref ar anheddiad Rhufeinig ac mae rhai o'i muriau o'r canoloesol yn goroesi. Mae'r Bont-faen yn gartref i wyl bwyd a diod flynyddol, gŵyl gerddoriaeth ac mae'n gartref i nifer o dimau chwaraeon.

Mae gan Ward y Bont-faen 1 boblogaeth o 1,629 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019). Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014, mae'r Bont-faen 1 yn safle 1649 allan o 1909 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru, sy'n golygu ei bod yn y 50% o aelwydydd lleiaf amddifadus. Dim ond 6% o'r bobl o oedran gweithio yn y Bont-faen sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â gwaith.

### Datblygiadau Tai

Mae nifer o ddatblygiadau tai yn y Bont-faen wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor 2011 – 2026. Y mwyaf o'r datblygiadau hyn yw'r 'Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Glos y Darren' gyda 475 o anheddau.

Mae'r datblygiad hwn wedi cael caniatâd cynllunio ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y safle.

Cyfrifir nifer rhagamcanol y disgyblion sy'n deillio o ddatblygiad gan ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad ynghylch deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae'r fformiwla wedi'i chynnwys yng Nghaneliau Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio.

Rhagwelir y bydd y datblygiad ar y cyfan yn cynhyrchu tua 48 o ddisgyblion meithrin a 132 o ddisgyblion cynradd.

## 6. Asesiad o'r Effaith

Mae'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Ciplun o'r sefyllfa ar hyn o bryd yw'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon. Mae'r asesiad o'r effaith yn ddogfen esblygol a fydd yn dal i gael ei datblygu trwy gydol y prosiect. Bydd adborth a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ddefnyddio i oleuo'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ymhellach, a bydd hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Adnabuwyd wyth mesur allweddol:

Cyf.	Mesur
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol
CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol
CI5	Effaith ar fusnesau lleol
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol
CI7	Effaith ar seilwaith lleol
CI8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, a chymhwyswyd sgôr a oedd yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr y Mesur	Asesiad o'r Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Dirywiad bach
0	Dim newid ar y cyfan
1	Gwelliant ach
2	Gwelliant Cymedrol

3	Gwelliant Mawr
---	----------------

## Effeithiau ar y Gymuned Leol

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Trosglwyddiad Arfaethedig
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	3	<p>Mae datblygiadau tai diweddar wedi arwain at niferoedd uwch o ddisgyblion yn y Fro Orllewinol. Yn dalgylch Ysgol Gynradd y Bont-faen ceir nifer o ddatblygiadau tai newydd. Y mwyaf o'r datblygiadau hyn yw 'Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Glos y Darren' â 475 o anheddau. Rhagamcanir y bydd y datblygiad yn cynhyrchu tua 48 o ddisgyblion meithrin a 132 o ddisgyblion cynradd. Mae amcanestyniadau'n dynodi na fyddai Ysgol Gynradd y Bont-faen yn gallu ateb y galw uwch hwn ar hyn o bryd. Byddai uno Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gyfun y Bont-faen a chyflawni cynnydd o 210 o leoedd meithrin yn y capasiti o fis Medi 2022 yn golygu bod yr ysgol yn gallu ateb y galw rhagamcanol yn y dalgylch yn y dyfodol. Os na chaiff y cynnig ei weithredu, byddai diffyg o ran nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn y Bont-faen.</p> <p>Mae'r holl drefniadau ar gyfer dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac fe gynhaliwyd adolygiad eang yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Byddai unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ar drefniadau derbyn yn y dyfodol. Yn dilyn ymarfer ymgynghori diweddar, mae'r Cyngor wedi cael gwared ar drefniadau bwydo ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd cymunedol ym Mro Morgannwg.</p> <p>Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gyflenwad a galw mwy effeithlon lle mae lleoedd ysgol yn ardal y Bont-faen yn y cwestiwn.</p>



CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	2	<p>Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd y Bont-faen yn cynnig clwb brecwast. Mae clwb ar ôl ysgol, 'Simply Out of School' ar gael hefyd, sy'n darparu gofal cofleidiol.</p> <p>Mae Ysgol Gynradd y Bont-faen hefyd yn rhedeg amrywiaeth eang o weithgareddau ar ôl ysgol sy'n cynnwys Côr 'Rockin' Melodies', Pêl-rwyd, Clwb Newyddiadurwyr Ifanc, Clwb Aml-chwaraeon, Yr Urdd, Clwb Tecstilau, Clwb Codi, Clwb Garddio a Chlwb Dawns.</p> <p>Y bwriad yw y byddai'r holl wasanaethau presennol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn arwain at nifer uwch o ddisgyblion sy'n debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau ysgol, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a gynigir. Gydag ysgol 3-19 oed, mae potensial i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer yr ystod oedran cyfan.</p> <p>Mae'r cynnig yn rhan o Fan B o Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau tra modern newydd sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Elfen allweddol o Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol.</p> <p>Bydd gwasanaethau a ddarperir gan Ysgol Gyfun y Bont-faen yn parhau'n ddigyfnewid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Fodd bynnag, byddai cyfle i wasanaethau gael eu darparu ar draws y cyfnodau uwchradd a chynradd o ganlyniad i weithredu ysgol pob oed 3-19.</p>
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol	0	Mae Ysgol y Bont-faen yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn rheolaidd:

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• y parc, nid yn unig ar gyfer dibenion hamdden ond i astudio bywyd gwyllt a natur, yn ogystal ag astudio celf;</li> <li>• y Stryd Fawr ar gyfer dibenion daearyddol;</li> <li>• eglwysi lleol;</li> <li>• Neuadd y Dref;</li> <li>• y pwll bywyd gwyllt a'r ardd berlyisiau;</li> <li>• Castell St Quentin</li> <li>• Afon Ddawan</li> <li>• ymweliadau â siopau e.e. Fabras, Waitrose, Tesco a swyddfeydd The Gem; a'r Llyfrgell</li> </ul> <p>Mae Ysgol y Bont-faen hefyd yn mynychu digwyddiadau cymunedol lleol lle bydd y côr yn perfformio. Mae'r ysgol yn ymweld â chartrefi preswyl a chartrefi nyrsio yn rheolaidd i ganu, helpu gyda'r gwaith garddio, chwarae gemau a rhannu dysgu gyda phreswylwyr.</p> <p>Ar hyn bryd mae Ardal Gemau Amldefnydd yn cael ei rhannu rhwng Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Iolo Morgannwg sydd wedi'i lleoli rhwng safleoedd y ddwy ysgol gynradd hon. Mae'r cynnig hwn yn lleihau'r angen i Ysgol Gynradd y Bont-faen ddefnyddio'r Ardal Gemau Amldefnydd hon ac felly gallai Ysgol Iolo Morgannwg gael budd o fwy o fynediad at y cyfleuster hwn. Byddai Ardal Gemau Amldefnydd yn cael ei darparu ar safle arfaethedig yr ysgol gynradd i'w defnyddio gan yr ysgol yn unig.</p> <p>Noda'r Cyngor y byddai'r safle arfaethedig yn cynyddu'r daith i rai cyfleusterau cymunedol. Fodd bynnag, byddai dal modd cerdded iddynt o safle'r ysgol.</p>
--	--	--

CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol	2	<p>Mae'r trac rhedeg yn Ysgol Gynradd y Bont-faen ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned, yn ogystal â'r brif neuadd, sydd ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio ar gyfer Karate. Mae Ysgol lolo Morgannwg yn cynnal eu Diwrnod Chwaraeon ar gaeau chwarae Ysgol y Bont Faen.</p> <p>Un o nodau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yw sicrhau bod cyfleusterau ysgol yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Byddai aelodau o'r gymuned leol yn cael eu cynnwys trwy gydol y gwaith i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad ysgol newydd i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion y gymuned ac yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael.</p> <p>Gallai symud yr ysgol i safle Ysgol Gyfun y Bont-faen agor y cyfleusterau presennol ar y safle i gyfran fwy o'r gymuned. Mae'r cyfleusterau presennol sydd ar gael i'r gymuned eu harchebu ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cynnwys Cae Pob Tywydd 3G, Ardal Gemau Amldefnydd, neuadd chwaraeon, theatr ddrama, ac ystafelloedd cyfarfod.</p> <p>Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ynglŷn â defnyddio safle ac adeiladau Ysgol Gynradd y Bont-faen yn y dyfodol. Pe bai'r cynigion yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu, byddai'r holl opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys dynodi'r safle'n un nad oes mo'i angen mwyach neu archwilio defnyddiau addysgol eraill. Byddai unrhyw waith i ddatblygu'r safle yn y dyfodol</p>

			yn cael ei reoli yn unol â'r polisi perthnasol gan y Cyngor a'i rwymedigaethau statudol ac ymddiriedol.
CI5	Effaith ar fusnesau lleol	0	Mae gan Ysgol Gynradd y Bont-faen gysylltiadau agos â changhennau lleol Tesco a Waitrose. Mae'r busnesau hyn wedi rhoi cymorth gyda gweithgareddau codi arian, gan gynnwys rhoi cymorth i ddatblygu ardal goedwig yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn hefyd yn darparu cyfleoedd addysgol a lleoliadau ar gyfer canu carolau adeg y Nadolig. Byddai'r cysylltiadau hyn yn cael eu cynnal gan fod y safle arfaethedig 0.689 milltir o'r safle presennol.
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol	2	<p>Corff llywodraethu Ysgol Gyfun y Bont-faen fyddai'n gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio ar gyfer yr ysgol pob oed a gall rhai rolau, megis Pennaeth y cyfnod sylfaen, gael eu hail-ddynodi. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythurau staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.</p> <p>Nid lleihau nifer y staff yw diben y cynnig. A dweud y gwir, byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai cynnydd yn nifer y disgyblion yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol.</p> <p>Efallai y bydd cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff mewn amgylchedd ysgol pob oed hefyd.</p>
CI7	Effaith ar seilwaith lleol	1	Mae mynediad at Ysgol Gynradd y Bont-faen trwy ffordd bengaead ar hyn o bryd. Mae hyn yn achosi tagfeydd ac anghyfleustra i drigolion lleol ar adegau gollwng a chodi plant. Byddai trosglwyddo'r

			<p>ysgol i safle newydd o fudd i drigolion o amgylch y safle presennol. Gallai hefyd ddwyn budd anuniongyrchol i safle cyfagos Ysgol Iolo Morgannwg gan y byddai tagfeydd yn yr ardal yn cael eu lleihau.</p> <p>Byddai cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd sydd ar gael yn y dalgylch yn lleihau siwrneiau hwy i ysgolion cynradd eraill.</p> <p>Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, byddai goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth ar safle Ysgol Gyfun y Bontfaen yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth sy'n ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu. Byddai hyn yn sicrhau bod goblygiadau o ran trafndiaeth yn cael eu hystyried wrth ddylunio'r ysgol newydd.</p>
CI8	Trefniadau cludiant	1	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf, yn unol â'r 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.</p> <p><i>"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."</i></p> <p>Byddai gan rai disgyblion sy'n byw'n agosach at safle presennol yr ysgol ychydig bach yn fwy o bellter i'w deithio. Nid oes unrhyw ddisgyblion ar hyn o bryd sydd â hawl i gludiant am ddim i Ysgol Gynradd y Bont-faen. Gan bod y safle arfaethedig 0.689 milltir o'r ysgool bresennol, mae'n annhebygol y byddai effaith sylweddol ar hawl i gludiant am ddim i'r ysgol.</p>

		<p>Mae'r mwyafrif o ddisgyblion o Ysgol Gynradd y Bont-faen yn mynd ymlaen i Ysgol Gyfun y Bont-faen fel eu hysgol uwchradd. Gallai'r cynnig fod o fudd i deuluoedd â phlant sy'n mynychu'r ddwy ysgol gan y byddent yn cael eu cludo i un safle.</p> <p>Fe allai fod goblygiadau o ran traffig o ganlyniad i'r cynnydd yng nghapasiti'r ysgol ar safle Ysgol Gyfun y Bont-faen. Byddai Aseiad Trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses gynllunio pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen.</p>
--	--	--

## 7. Crynodeb Sgorio

Cyf.	Y Gymuned Leol
CI1	3
CI2	2
CI3	0
CI4	2
CI5	0
CI6	2
CI7	1
CI8	1
Sgôr Cyfartalog	1.375

## 8 Casgliadau

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 6 o'r 8 o fesurau a aseswyd. Mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol ar draws 0 o'r 8 mesur. Ar y cyfan, mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi Ysgol Gyfun y Bont-faen i barhau â'i llwyddiant gan ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy. Byddai'n darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu mewn ymateb i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial. Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ateb anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol. Cynigir fel lleiafswm y byddai'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer rhieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd ymlaen.

Byddai angen i'r goblygiadau o ran trafndiaeth gael eu hystyried yn ofalus wrth ddylunio'r ysgol newydd er mwyn cyfyngu ar effaith y cynnydd yn y disgyblion a fyddai'n teithio i'r safle. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r trosglwyddiad yn gwella'r tagfeydd o amgylch y safle presennol.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig i uno Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gyfun y Bont-faen a chynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well i sicrhau'r cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.